## Cost Hysbysiadau Cosb

Os caiff hysbysiad ei roi, bydd gan riant 15 niwrnod i ddarparu unrhyw dystiolaeth y dymuna ei chyflwyno i'r ysgol i ddadlau pam na ddylai'r hysbysiad gael ei roi.

Yr ysgol fydd yn penderfynu a yw'r dystiolaeth yn cael ei derbyn ai peidio.

Ni cheir terfyn ar nifer y rhybuddion ffurfiol y gellir eu rhoi.

Os rhoddir Hysbysiad Cosb, dyma fydd y ddirwy:

**£60 i ddechrau i'w dalu o fewn 28 niwrnod, sy'n gallu codi i:**

**£120 os nad yw'n cael ei dalu'n brydlon o fewn 42 o ddiwrnodau i dderbyn yr hysbysiad.**

Os na fydd yr Hysbysiad Cosb yn cael ei dalu, bydd yr Awdurdod Lleol (ALl) yn ystyried erlyn am y drosedd wreiddiol, sef **'methu sicrhau presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol'** o dan adran 444 Deddf Addysg 1996 neu dynnu'r hysbysiad yn ôl fel a nodwyd yn y côd ymddygiad.

## Cefnogaeth gyda Phresenoldeb Ysgol

Cofiwch, os oes rhesymau dros absenoldeb eich plentyn, rhowch wybod i'r ysgol.

Os yw eich plentyn yn absennol, siaradwch â'r ysgol cyn gynted â phosib ar ddiwrnod cyntaf yr absenoldeb.

**Disgwylir i'ch plentyn fod yn yr ysgol 190 o ddiwrnodau mewn blwyddyn academaidd gyda 175 o ddiwrnodau rhydd o ganlyniad i benwythnosau a gwyliau ysgol.**



## Pwy i ffonio?

Mae mwy o wybodaeth am roi Hysbysiadau Cosb ar gael gan ysgol eich plentyn neu gan Wasanaeth Lles Addysg yr Awdurdod Lleol ar 01792 771935.

Mae mwy o wybodaeth am Hysbysiadau Cosb ar gael yn **www.abertawe.gov.uk**

36207-14 Designprint 01792 586555

City and County of Swansea • Dinas a Sir Abertawe •

# HYSBYSIADAU COSB

## Gwybodaeth i rieni/ofalwyr a disgyblion

ERW
Ein Rhanbarth ar Waith
Education through Regional Working

# Hysbysiadau Cosb

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyfarwyddo pob awdurdod lleol i roi Hysbysiadau Cosb o dan Reoliadau (Hysbysiad Cosb) (Cymru) 2013 ar waith o fis Medi 2014.

**Mae unrhyw absenoldeb o'r ysgol, am ba reswm bynnag, yn niweidiol i gyfleoedd bywyd hir dymor y plentyn, felly dylid ei osgoi ar bob cyfrif.**

Mae Hysbysiad Cosb yn ddull ymyrryd gyda'r nod o geisio sicrhau gwelliant ym mhresenoldeb y plentyn yn yr ysgol.

## Pwy fydd yn derbyn Hysbysiad Cosb?

Rhoddir hysbysiad i bob rhiant o ran pob plentyn.

O dan adran 576 Deddf Addysg 1996, dyma'r diffiniad o riant:

- pob rhiant naturiol, ni waeth a ydyw ai peidio
- unrhyw berson sydd, er nad yw'n rhiant naturiol, â chyfrifoldeb rhiant am blentyn neu berson ifanc
- unrhyw berson sydd, er nad yw'n rhiant naturiol, yn gofalu am blentyn neu berson ifanc (mae gofalu am blentyn neu berson ifanc yn golygu bod y person mae'r plentyn yn byw gydag ef ac sy'n gofalu amdano, ni waeth beth yw'r berthynas â'r plentyn, yn cael ei ystyried yn rhiant yn ôl cyfraith addysg).

## Apelio yn erbyn Hysbysiad Cosb

Nid oes hawl statudol i apelio o dan y Rheoliadau, ond pan fydd rhiant yn gwrthwynebu rhoi Hysbysiad Cosb, gall gysylltu â'r Gwasanaeth Lles Addysg.

## Pam dylai fy mhlentyn fynd i'r ysgol bob dydd?

**Presenoldeb 100%**
Dim colli unrhyw ddiwrnod dysgu
***Cyfle gorau i lwyddo!***

**Presenoldeb 95%**
Colli 2 wythnos o ddysgu
***Bydd presenoldeb gwael yn effeithio ar ddysgu***

**Presenoldeb 90%**
Colli 4 wythnos o ddysgu
***Bydd presenoldeb gwael yn effeithio ar ddysgu***

**Presenoldeb 85%**
Colli 5.5 wythnos o ddysgu
***Mae presenoldeb gwael iawn yn cael effaith arwyddocaol ar ddysgu. Rydych mewn perygl o gael eich erlyn.***

**Presenoldeb 80%**
Colli 7.5 wythnos o ddysgu
***Mae presenoldeb gwael iawn yn cael effaith arwyddocaol ar ddysgu. Rydych mewn perygl o gael eich erlyn.***

## Gellir rhoi hysbysiad cosb:

**Pan fydd disgybl wedi colli o leiaf 10 sesiwn neu 5 niwrnod ysgol oherwydd absenoldeb anawdurdodedig yn ystod y tymor presennol gan ddod â phresenoldeb cyffredinol y plentyn islaw 90% yn y flwyddyn ysgol hyd yn hyn.**

**Collir 10 sesiwn neu 5 niwrnod ysgol o ganlyniad i gymryd gwyliau yn ystod y tymor os bydd yr absenoldeb yn mynd â phresenoldeb cyffredinol y plentyn yn yr ysgol islaw 90% yn y flwyddyn ysgol bresennol hyd yn hyn.**

**10 achos o gyrraedd yn hwyr ar ôl i'r gofrestr gau mewn tymor gan ddod â phresenoldeb y disgybl islaw 90% yn y flwyddyn ysgol hyd yn hyn, neu gyfuniad o'r uchod.**

